

## TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

### PWNC/SUBJECT:

Cais am drwydded defnydd tir er cynnal digwyddiad cerddoriaeth byw, gan ddarparu adloniant i blant, arddangosfa tan gwyllt, ynghyd a darparwyr lluniaeth ar y Promenâd yn Nhywyn.

*Application for a Land Use Licence to hold a live music event, providing childrens entertainment, a firework display together with the provision of food and refreshments at the Promenade in Tywyn.*

---

### AELOD CABINET/CABINET MEMBER

Y Cyngorydd / Councillor Dafydd Meurig

---

### PENDERFYNIAD/DECISION

Penderfyniad yr Aelod Cabinet - Caniatau'r digwyddiad.

*Cabinet Member's decision – To permit the event.*

---

### RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Mae cais wedi ei dderbyn gan y Tywyn Events Committee sy'n grwp gwirfoddol i gynnal digwyddiad cerddoriaeth byw, adloniant i blant ac arddangosfa tân gwyllt ar y Promenâd yn Nhywyn ar ddydd Sul yr 28ain o Awst 2016.

*A request has been received by the Tywyn Events Committee, a voluntary group to hold a live music event, children's entertainment and firework display on the Promenade in Tywyn on Sunday the 28<sup>th</sup> of August 2016.*

---

### YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

Tra bo'r Cyngor yn gytun mewn egwyddor i ganiatau digwyddiadau a'r fath, yn yr achos yma mae'r trefnwyr yn dymuno cynnwys bar dros dro a darparwyr bwyd fel rhan o'r digwyddiad hwn. Mae nifer o dai bwyta, bariau a chafis wedi eu lleoli yn gyfagos i leoliad bwriedig y digwyddiad ac mae swyddogion y Cyngor yn bryderus y gallai'r bar dros dro a'r darparwyr bwyd gymryd masnach gan y busnesau hyn ar un o benwythnosau prysuraf y flwyddyn.

Serch hynny, nid yw costau cynnal digwyddiad o'r math yma yn ansylweddol, a gan fod y grwp yn dibynu ar roddion, mae'r trefnwyr yn nodi na fyddai modd iddynt arianu'r digwyddiad heb incwm y bar a'r darparwyr bwyd. Ymhellach mae'r trefnwyr o'r farn y byddai'r digwyddiad yn tynnu mwy bobl na'r arfer i'r ardal.

Pe bai'r Cyngor yn caniatau'r digwyddiad, byddai gofyn i'r trefnwyr ddarparu'r canlynol:-

- Copi o asesiad risg ar gyfer y digwyddiad.
  - Tystiolaeth o bolisi Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ar gyfer y digwyddiad.
  - Tystiolaeth o gydymffurfiaeth a gofynion trwyddedu statudol ar gyfer y digwyddiad. Dylai'r trefnwyr ddarparu unai copi o drwydded neu rybydd o ddigwyddiad gan yr adran drwyddedu. Deallaf fod trwydded ar gyfer y digwyddiad a'r bar eisioes wedi ei gymeradwyo gan adran drwyddedu'r Cyngor.
-

---

*Whilst the Council is agreeable in principle to granting consent for events of this nature, the organisers in this case wish to include a temporary bar and food providers as part of the event. There are a number of cafes, bars and restaurants on the seafront in Tywyn, and officers of the Council are concerned that the temporary bar and food providers would take trade away from these establishments on one of the busiest weekends of the year.*

*The cost of holding an event of this nature is not insignificant, and as the Tywyn Events Committee rely on donations, they could not afford to stage the event without the provision of a bar. Furthermore, the Committee are of the opinion that the event would bring more trade than usual to the vicinity.*

*Should the Council grant permission for the event to take place, the organisers would be required to provide the following:-*

- A copy a risk assessment for the event*
- Evidence of the Group's Public Liability insurance for the event.*
- Evidence of compliance with any relevant Statutory Licencing Requirements. I understand that the Council's Licencing department have approved a bar licence for the event.*

---

#### **BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS**

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:- *"Dim i'w ychwanegu." / Nothing to add.*

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

*"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb / No comments regarding proprietary.*

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

*"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol / No comments to add from the perspective of financial propriety."*

---

#### **BARN YR AELODAU LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBERS**

Y Cynghorydd/Councillor Anne Lloyd Jones

*"Does gennyf ddim gwrthwynebiad i'r cais. Mae Tywyn Events Committee yn grwp cyfrifol iawn gyda llawer o fobol yn rhoi eu amser yn wirfoddol.*

*Ymhellach nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i ddarparu bar a faniau bwyd fel rhan o'r digwyddiad. Mae bar a darparwyr bwyd yn cael eu caniatáu ar gyfer digwyddiad Race the Train, a ni welaf fod lle i wahaniaethu yn yr achos yma. Mae cynnal digwyddiad o'r fath yn gostus, nid yw'r trefnwyr yn codi ar bobl i fynychu, ac mae angen incwm gan y bar a'r darparwyr bwyd i'w ariannu."*

*I have no objection to the request. Tywyn Events Committee are a responsible group with many individuals giving their time voluntarily.*

*Furthermore, I have no objection to the inclusion of a temporary bar and food providers as part of the event. A temporary bar and food providers are permitted for the Race the Train event, and I see no reason to differentiate in this case.*

*Organising an event of this nature is costly, the organisers do not charge people for attending, and income from the temporary bar and food providers is required to fund the event.*

---

---

Y Cyngorydd/Councillor Mike Stevens

Rwyf yn gwbl gefnogol i'r digwyddiad, ond yn gofyn i'r amodau canlynol gael eu cynnwys. O ganlyniad i'r ffaith fod tri chaffi sy'n gwerthu diodydd poeth, byrgyrs, sglodion, brechdanau, hufen iâ ac ati yn ogystal â bwyty/tafarn newydd sbon wedi ei lleoli o fewn 20 neu 30 metr o'r digwyddiad bwriedig ar bromenâd Tywyn, gofynnaf i chi wrthod caniatáu unrhyw stondinau bwyd na diod, faniau byrgyrs, gwerthwyr hufen iâ na bar yn gwerthu alcohol ar y promenâd a ffyrdd cyfagos.

Mae'r busnesau lleol sefydledig a leolir ar y promenâd yn cyflogi pobl leol, yn talu treth y Cyngor ac yn cyfrannu tuag at yr economi leol drwy gydol y flwyddyn. Mae dicter mawr gan y busnesau hyn tuag at y masnachwyr achlysurol sy'n ymddangos ar adegau prysuraf y tymor gan gymryd busnes oddi arnynt.

Dylid cofio hefyd ein bod yn gwthio'r cynllun "Prynu'n Lleol" yn gyson, a bod dyletswydd arnom i ddiogelu busnesau lleol.

*"I am fully supportive of the event but ask the following conditions apply. In view of the fact there are three cafes selling hot beverages, burgers, chips, sandwiches, ice creams etc and a brand new pub restaurant on Tywyn promenade within 20 or 30 meters of the event I request that no food or beverage stalls, burger vans, ice cream sellers or bar selling alcohol are allowed on the promenade or surrounding roads.*

*These local established businesses on the promenade employ local people pay council tax and contribute to the local economy throughout the year. There is great resentment from local business to these casual traders who appear at peak times in the season to take business away from them.*

*It must also be remembered we are constantly pushing the "buy local" scheme so have a duty to help safeguard local business."*

---

LLOFNOD /SIGNED



DYDDIAD/DATE

17.08.16

---